Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire
County Council

sirgar.llyw.cymru
carmarthenshire.gov.wales

DYDD MERCHER, 3 MAI 2023

AT: HOLL AELODAU'R CYNGOR SIR

YR WYF DRWY HYN YN EICH GALW I FYNYCHU CYFARFOD **AML-LEOLIAD** Y **CYNGOR SIR** A GYNHELIR YN **SIAMBR, NEUADD Y SIR, CAERFYRDDIN, SA31 1JP AC O BELL** AM **10.00 YB, DYDD MERCHER, 10 MAI, 2023** ER MWYN CYFLAWNI'R MATERION A AMLINELLIR AR YR AGENDA SYDD YNGHLWM

Wendy Walters

PRIF WEITHREDWR

GELLIR GWYLIO'R CYFARFOD AR WEFAN Y CYNGOR DRWY'R DDOLEN CANLYNOL:-
HTTPS://CARMARTHENSHIRE.PUBLIC-I.TV/CORE/PORTAL/HOME

Swyddog Democrataidd:	**Janine Owen**
Ffôn (llinell uniongyrchol):	**01267 224030**
E-bost:	**JanineOwen@sirgar.gov.uk**

Wendy Walters Prif Weithredwr, *Chief Executive,*
Neuadd y Sir, Caerfyrddin. SA31 1JP
County Hall, Carmarthen. SA31 1JP

A G E N D A

1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL.

3. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD

4. CYHOEDDIADAU GAN YR ARWEINYDD, AELODAU'R CABINET NEU'R PRIF WEITHREDWR (OS OES RHAI)

5. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR COFNODION CYFARFOD Y CYNGOR A GYNHALIWYD AR Y 19 EBRILL 2023 5 - 14

6. RECRIWTIO I SWYDD PENNAETH SEILWAITH YR AMGYLCHEDD (PENODIAD PARHAOL) 15 - 38

7. YSTYRIED Y RHYBUDDION O GYNNIG CANLYNOL:-

7 .1 RHYBUDD O GYNNIG A GYFLWYNWYD GAN Y CYNGHORWYR SEAN REES A MICHAEL CRANHAM

"Mae 9863 o bobl sydd wedi goroesi strôc yn byw yn ardal Bwrdd Iechyd Hywel Dda, ac mae 47% o'r rheiny'n byw yn Sir Gaerfyrddin.

Mae'r Gymdeithas Strôc wedi darparu 'Gwasanaeth Goroesi Strôc' ar draws tair ardal Bwrdd Iechyd Hywel Dda ers dros ddegawd.

Yn Sir Gaerfyrddin, mae'r cyllid ar gyfer hyn hyd yma wedi bod drwy'r Bwrdd Iechyd ac yna mae'r Cyngor Sir wedi bod yn ychwanegu at y swm hwn. Bellach mae'r Cyngor Sir wedi newid ei gyfraniad ariannol er mwyn canolbwyntio'n fwy ar atal strôc.

Ar gyfer 2023/24, mae'r Gymdeithas Strôc wedi cael gwybod y byddant yn cael yr un dyraniad cyllid â'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth presennol, ac felly ni fydd hyn yn cynnwys unrhyw arian ychwanegol i dalu am y cronfeydd a ddarparwyd yn y gorffennol gan yr Awdurdod Lleol. Yn ogystal, mae'r holl wasanaethau eraill ar gyfer bywyd ar ôl cael strôc a gomisiynwyd ledled Cymru yn cael eu hariannu'n llawn gan y Byrddau Iechyd.

Felly rydym fel Cyngor Sir Caerfyrddin yn gofyn i Fwrdd Iechyd Hywel Dda roi sicrwydd ar frys i'r rhai sydd wedi goroesi strôc, eu teuluoedd, a'u gofalwyr, na fydd unrhyw effaith ar ddarparu'r 'Gwasanaeth Goroesi Strôc' yma yn Sir Gaerfyrddin yn y dyfodol."

8. CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD (NID OEDD DIM WEDI DOD I LAW).

9. CYFLWYNO DEISEB

Nodyn: *Er mwyn cael eu hystyried mewn cyfarfod ffurfiol rhaid i bob deiseb gynnwys 50 o lofnodion etholwyr cofrestredig ar gyfer copïau papur a 300 o lofnodion etholwyr cofrestredig ar gyfer e-ddeisebau. Mae cyfanswm Llofnodion Etholiadol Sir Gaerfyrddin hyd at y trothwy o 50 wedi'u dilysu. Nid ydym wedi gwirio'r llofnodion wedi hynny.*

"Rydym ni'r rhai sydd wedi llofnodi isod yn gofyn am weithredu ar unwaith gan Gyngor Sir Caerfyrddin i gynllunio, ariannu ac adeiladu toiledau yn Nwyrain Harbwr Porth Tywyn a Gorllewin Harbwr Porth Tywyn. Deiseb i ddatrys absenoldeb toiledau cyhoeddus digonol a hygyrch yn Harbwr Porth Tywyn."

10. CWESTIYNAU GAN YR AELODAU (NID OEDD DIM WEDI DOD I LAW)

11. COFNODION ER GWYBODAETH (AR GAEL AR Y WEFAN)

11 .1 Y PWYLLGOR SAFONAU - 14EG CHWEFROR 2023 [YN CYNNWYS CYFARFODYDD A AILYMGYNHALIWYD 15 CHWEFROR 2023 A 12 EBRILL 2023]

11 .2 PWYLLGOR PENODI AELODAU - 30 MAWRTH 2023

11 .3 Y PWYLLGOR TRWYDDEDU - 4 EBRILL 2023

11 .4 PWYLLGOR CRAFFU LLEOEDD, CYNALIADWYEDD A NEWID HINSAWDD - 14 EBRILL 2023

11 .5 PWYLLGOR CRAFFU IECHYD A GWASANAETHAU CYMDEITHASOL - 17 EBRILL 2023

11 .6 PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU, CARTREFI AC ADFYWIO - 5 EBRILL 2023